# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 5 Mawrth 2019

Amser: 09.00 - 10.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/5288) yn:

http://senedd.tv/cy/5288

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | David J Rowlands AC (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Julie Morgan AC, Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Gareth Griffiths, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Ross Davies (Dirprwy Glerc)<br>Kathryn Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Sam Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

# 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

# 2 Deisebau newydd

## 2.1 P-05-864 Gwahardd y defnydd o 'Bensaernïaeth Elyniaethus'

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i:

- ofyn am ei barn yn benodol mewn perthynas â rhinweddau ac ymarferoldeb galwad y ddeiseb am wahardd neu foratoriwm ar y defnydd o bensaernïaeth elyniaethus yng Nghymru;
- gofyn iddi ystyried cyflwyno nodyn cyngor technegol ynghylch y defnydd o bensaernïaeth elyniaethus; a
- gofyn iddi pa fesurau rheoli ym maes cynllunio y gellid eu gweithredu er mwyn darparu goruchwyliaeth agosach ar gread pensaernïaeth elyniaethus yn ôl-weithredol.

## 2.2 P-05-865 Dylid gwarantu bod dewisiadau sy’n seiliedig yn llwyr ar blanhigion ar bob bwydlen y sector cyhoeddus, i ddiogelu hawliau figaniaid ac er budd ein hiechyd, yr amgylchedd ac anifeiliaid.

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg i ofyn pa asesiad neu waith ymchwil sydd wedi ei wneud mewn perthynas â digonolrwydd yr opsiynau sydd ar gael ar fwydlenni ysbytai ac ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd i bobl sy'n dilyn deiet fegan.

# 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

## 3.1 P-04-648 Ceisiadau Cynllunio Nwy ac Olew Anghonfensiynol

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a chytunodd i gau'r ddeiseb yn sgil y cadarnhad a gafwyd bod polisi Llywodraeth Cymru wedi ei ddiwygio gan olygu y bydd Gweinidogion yn cael eu

hysbysu ynghylch, ac yn ystyried ailystyried, bob cais cynllunio yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau olew a nwy anghonfensiynol, lle nad yw awdurdodau cynllunio lleol wedi penderfynu eu gwrthod.

### 3.2 P-05-788 Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i:

- aros tan cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch statws Bagloriaeth Cymru a'i anfon at y deisebydd iddo wneud sylwadau; ac
- ysgrifennu eto at CBAC i ofyn am ymateb ar y mater hwn ac i fynegi siom na chafwyd ymateb i'r ohebiaeth flaenorol.

### 3.3 P-05-805 Rhoi chwarae teg i Athrawon Cyflenwi

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunwyd i wahodd y Gweinidog Addysg i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor i roi rhagor o dystiolaeth ynghylch y mater.

### 3.4 P-05-828 Rhagdybiaeth o blaid ysgolion gwledig

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunodd i:

- ysgrifennu at y deisebwyr ac eraill i roi gwybod iddynt mai'r cam gweithredu priodol yw iddynt godi eu pryderon yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog Addysg a gofyn iddi ystyried a oes cyfiawnhad iddi ymyrryd yn yr achos hwn, fel yr amlinellir yn ei llythyr; a
- ysgrifennu at y Gweinidog Addysg yn gofyn iddi am ymateb i'r cynnig y dylid cael ffordd uniongyrchol i lywodraethwyr ysgolion apelio penderfyniadau a wneir o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a gofyn iddi ddarparu manylion ynghylch unrhyw ystyriaeth a roddwyd i'r broses apeliadau yn ystod yr adolygiad o'r Cod.

### 3.5 P-05-812 Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog ymddiriedolaethau i weithredu canllawiau NICE ar gyfer trin Anhwylder Personoliaeth Ffiniol neu gyfiawnhau pam nad ydynt yn gwneud hynny

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach gan y deisebydd a chytunwyd  ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf

ynghylch datblygu gwasanaethau therapi seicolegol, gan gynnwys y cyllid a roddwyd i fyrddau iechyd, ers ei lythyr blaenorol ym mis Mehefin 2018.

### 3.6 P-05-854 Gwneud hyfforddiant Anabledd Dysgu yn orfodol ar gyfer staff ysbytai

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach a chytunwyd i aros tan y cyhoeddiad a ddisgwylir ynghylch cyllid i gefnogi'r Rhaglen Gwella Bywydau a chanlyniad yr ymgynghoriad a gynhelir gan yr Adran Iechyd yn Lloegr, cyn ystyried pa gamau pellach i'w cymryd mewn perthynas â'r ddeiseb.

### 3.7 P-04-667 Cylchfan ar gyfer Cyffordd yr A477/A4075

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i ofyn am ymateb i'r wybodaeth a'r awgrymiadau a gynigiwyd gan Gyngor Sir Benfro, i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch asesiadau pellach a wnaed mewn perthynas â dyluniad y ffordd a diogelwch y cyffordd, a gofyn am gopi o'r adolygiad 36 mis RSA.

### 3.8 P-05-748 Bysiau Ysgol i Blant Ysgol

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gomisiynydd Plant Cymru i ofyn am ei barn ynghylch y materion a godwyd yn y ddeiseb a gofyn am unrhyw sylwadau sydd ganddi ynghylch priodoldeb a diogelwch plant sy'n defnyddio bysiau cyhoeddus i deithio i ac o'r ysgol.

### 3.9 P-05-833 Gwella gwasanaethau rheilffordd i Gas-gwent

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth bellach ac, yn sgil gwybodaeth a gafwyd gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, cytunwyd i gau'r ddeiseb ar y sail ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn yn fwy y gellid ei gyflawni ar yr adeg yma.

### 3.10 P-05-818 Cyflwyno Cofrestr o Lobïwyr yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i ofyn:

- am amlinelliad o unrhyw ystyriaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i rhoi'n flaenorol i'r manteision o gyflwyno cofrestr statudol o lobïwyr yng Nghymru;
- a wnaeth y Pwyllgor edrych ar fodelau ar gyfer cofrestru lobïwyr a ddefnyddir mewn mannau eraill, gan gynnwys Senedd Ewrop;
- a roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o godi tâl ar unigolion neu sefydliadau i gofrestru er mwyn rheoli'r gost o gyflwyno'r mesur yma; ac

- am wybodaeth ynghylch unrhyw waith pellach y mae'n bwriadu ei wneud ar y mater hwn.

### 3.11 P-05-813 Gwahardd y DEFNYDD O FAGLAU LARSEN (maglau dal sawl math o frân)

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn tynnu sylw at y wybodaeth a dderbyniwyd gan ystod o randdeiliaid, a gofyn am ymatebion i'r pryderon a godwyd ynghylch defnyddio a rheoleiddio baglau Larsen yn ogystal â gwybodaeth bellach am unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd neu eu hystyried yn y maes hon.

## 4 Sesiwn dystiolaeth – P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi’r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a’r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Gareth Griffiths.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

## 6 Trafod Sesiynau Tystiolaeth Blaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a chytunodd i ofyn mewn chwe mis am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y broses bontio a chanlyniadau'r adolygiadau a gynhaliwyd gan weithwyr cymdeithasol annibynnol.